**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2826 (Cy.249) (C.97)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud - - 25 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 99(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006.

(2) Mae darpariaethau a ddaw i rym o dan y gorchymyn hwn yn dod i rym yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

**Y Diwrnod penodedig**

**2.**—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (2) isod i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Dyma'r darpariaethau—

(a) adrannau 5(4), 5(5) ac adran 10;

(b) adrannau 16 i 31;

(c) adrannau 72 i 93;

(ch) adrannau 94, 95 a 96;

(d) adran 98 cyn belled ag y mae'n gymwys i Ran 2 o Atodlen 12 (ac o ganlyniad Rhan 2 o Atodlen 12).

(**1**) 2004 p.18.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

25 Hydref 2006

(**2**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cafodd Deddf Rheoli Traffig 2004 (p.18) ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004.

Diben y Ddeddf yw darparu sylfaen i wella amodau ar gyfer pawb sy'n defnyddio ffyrdd drwy reoli'r rhwydweithiau cenedlaethol a lleol.

Mae adran 99(1) o'r Ddeddf yn darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddwyn i rym yr adrannau hynny y mae'n barnu eu bod yn briodol ar ddiwrnod y caiff ei benodi.

Rhennir y Deddf yn saith ran. Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 5(4), 5(5) (pwerau arbennig swyddog traffig) ac adran 10 (tramgwyddau) o Ran 1, Rhan 2 yn ei chyfanrwydd (rheoli rhwydweithiau gan awdurdodau traffig lleol), Rhan 6 yn ei chyfanrwydd (gorfodi cosbau sifil am dramgwyddau traffig) ac adrannau 94 (pŵer i arolygu bathodynnau glas), 95 (cymhwyso incwm dros ben oddi wrth fannau parcio), 96 (darpariaethau penodol o ran Cymru) a 98 (diddymiadau).

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 5(4), 5(5) a 10 o Ran 1 o'r Ddeddf. Mae'r adrannau hyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Brif Swyddog yr Heddlu yn yr ardal lle mae'r ffordd i roi caniatâd i Swyddogion Traffig yr Asiantaeth Briffyrdd i ddefnyddio'u pwerau arbennig yn ardaloedd y ffin rhwng Cymru a Lloegr pan fo hynny'n briodol. Mae hefyd yn darparu bod modd cosbi yng Nghymru dramgwyddau a gyflawnir yn erbyn swyddogion traffig o Loegr wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau o dan adran 5 yng Nghymru.

Mae Rhan 2 o'r Deddf (adrannau 16 i 31) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod traffig lleol i ofalu bod traffig yn symud yn hwylus ar eu rhwydweithiau ffyrdd ac i hwyluso'r cyfryw symudiad ar rwydweithiau awdurdodau eraill.

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf (adrannau 72 i 93) yn cynnwys pwerau sy'n darparu un fframwaith i wneud rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol orfodi cosbau sifil am dramgwyddau y mae a wnelont â chyfyngiadau parcio ac aros yn sifil, tramgwyddau lonydd bysiau a rhai tramgwyddau y mae a wnelont â thraffig sy'n symud. Bydd y rheoliadau hyn yn disodli pwerau sydd eisoes yn bodoli yn neddfwriaeth cenedlaethol. Bydd Rhan 6 yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud er mwyn rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru bwerau gorfodi sifil i gwmpasu rhai tramgwyddau y mae a wnelont â thraffig sy'n symud drwy ddefnyddio tystiolaeth camera a phwerau ychwanegol o ran gorfodi cyfyngiadau parcio. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer wrth gefn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i wneud cais am bwerau gorfodi sifil.

Mae adran 94 yn cyflwyno diwygiadau i ddeddfwriaeth parthed arolygu "bathodynnau glas."

Mae adran 95 yn cyflwyno diwygiadau i Ddeddf Rheoli Traffig 1984 parthed defnydd gweddillion incwm o fannau parcio.

Mae adran 96 yn ymwneud â diwygio swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o'r blaen o dan O.S. 1999/672.

Mae adran 98 yn dod a Rhan 2 o Atodlen 12 sydd yn delio efo diddymiadau i rym.